EISTEDDFOD MÔN

BRO SEIRIOL 2025

BRO SEIRIOL 2025

DYDD SADWRN 17 MAI, 2025

YN CANOLFAN, BEAUMARIS

RHESTR TESTUNAU

CROESO I FRO SEIRIOL

Gair gan Gadeirydd y Pwyllgor Gwaith

Ystyriaf hi'n fraint wirioneddol i gael estyn croeso cynnes i chi i Eisteddfod Môn, 2025 ym Mro Seiriol.

Nodwn mai Eisteddfod Môn ar y naill law ac Eisteddfod Powys ar y llall yw'r ddwy eisteddfod 'Talaith' a fu, ers cenedlaethau bellach yn 'pontio' rhwng yr eisteddfodau lleol hollbwysig - gydag Eisteddfod Bro Llandegfan, gant oed yn un ohonynt! – â'r Eisteddfod Genedlaethol. Diolch byth mae'r ddwy yn parhau i fod yn ddigwyddiadau pwysig yng nghalendr diwylliannol Cymru.

Cynhelir Eisteddfod Môn 2025 ym Mro Seiriol ar lan y Fenai. Mae hi'n ardal ddiddorol, yn cynnwys cymunedau Cwm Cadnant (sef Llandegfan, Glyn y Garth a Llansadwrn) i'r gorllewin, Beaumaris yn ei chanol, a chymunedau Glanrafon, Llanddona, Llangoed a Phenmon i'r dwyrain. Mae'r golygfeydd yn odidog, ac yma fe deimlwch naws cefn gwlad a glan y môr y ddau fel ei gilydd.

Dewch atom yn llu yn 2025, ond cyn hynny porwch drwy'r Rhestr Testunau ac fe welwch fod yma gystadlaethau cartref niferus a gwobrau da i'ch denu. Mae gennych o leiaf hydref a gaeaf ... a gwanwyn cynnar 2025 i greu a chyfansoddi! Ewch ati! Mae yna hefyd gystadlaethau cartref difyr i blant. Diolchwn am ddiddordeb parod yr ysgolion cynradd lleol ac Ysgol David Hughes.

Rwy'n ddyledus iawn i'r criw bychan fu'n gweithio mor ddiwyd yn barod, yn rhoi llawer iawn o'u hamser a'u hegni i baratoi am eisteddfod i'w chofio. Buaswn yn hollol anghyfrifol pe na bawn yn enwi Gary a Mari Pritchard fel dau o brif symbylwyr y fenter. Diolch o galon i chi'ch dau. Mae'r ffaith fod David Evans yn fodlon ymuno â chi i ysgafnhau'r baich ysgrifenyddol yn newydd arbennig o dda. Diolch i bob un fu wrthi hi yn barod! Diolch am roddion hael addawyd yn barod, a byddwn yn edrych ymlaen at dderbyn rhagor yn llawen.

Fel y dywed pob Cadeirydd Pwyllgor Gwaith yn flynyddol, edrychwn ninnau ymlaen at fwrlwm Eisteddfod Môn 2025, Bro Seiriol. Dewch atom!

Edward Morus Jones

Cadeirydd Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Môn Bro Seiriol

CYWYDD CROESO I EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

Oes wir, mae ym Mro Seiriol
Wên a chân, ac yn ei chôl
Cewch groeso'n galon i gyd
I neuadd llawn addewid.

Dewch ar dro, dewch ar drywydd
Tir ein sant a'r troeon sydd:
O Benmon i Landdona,
I draethau yr hetiau ha',
Ewyn gwyn a chlychau'r gog,
Lliw hynod Aberlleiniog.
A Llanfaes, y llain o Fôn
Â'i heli'n nwfn y galon.

Am lwyfan! Crëwn hanes
Â'r ŵyl danbeitiaf ei gwres.
Dewch atom. Wnaiff hi'm siomi;
Ei hangerdd a'i cherdd gewch chi,
Awen llên, celf gain ei lliw
Yn orielau amryliw.
Ewch yn awr a brysiwch 'nôl
Â'r sêr i ŵyl Bro Seiriol!

Annes Glynn

GORSEDD BEIRDD YNYS MÔN

GORAU ARF /|\ ARF DYSG

SWYDDOGION YR ORSEDD

Derwydd Gweinyddol

Howyddfab

Caplan

Huw Goronwy

Cofiadur

Olwen Cefni

Bardd yr Orsedd

Rhisiart Blaen Ddôl

Trysorydd

Llanbedr-Rhosfair

Rhingyll

Evan

Ceidwad y Cledd

Athenfab

Meistres y Gwisgoedd

Hefina o'r Sarn

Ceidwaid y Pyrth

Trefor Tanymanod a Belanydd

Cyflwynfeirdd

Gwen Tre'r Gest a Mallt

Trefnwyr y Ddawns Flodau

Heledd Haf a Mair Jones

Corn Gwlad

Jess Bailey

SWYDDOGION LLYS EISTEDDFOD MÔN

Cymrawd y Llys
Dewi Jones, Benllech

Llywyddion Anrhydeddus
Eryl H. Jones, Bodffordd
Ellis Wyn Roberts, Bodffordd
Edward Morus Jones, Llangristiolus
Victor Hughes, Bodffordd
Islwyn Williams, Biwmares

Llywydd y Llys
Huw Goronwy Owen, Traeth Coch

Is-Lywyddion y Llys
Mrs Ann Postle, Bodedern
Miss Nia Efans, Talwrn

Ysgrifennydd y Llys
Llifon Jones, Gaerwen

Is-ysgrifennydd y Llys
Mrs Gwenda Healy, Gaerwen

Trysoryddion y Llys
Mrs Bethan Owen, Talwrn
Miss Llio Lloyd Jones, Bodedern

Trysorydd Cynorthwyol y Llys
Pat Ann Roberts, Amlwch

Is-drysoryddion y Llys
Mrs Bethan Owen, Talwrn
Miss Llio Lloyd Jones, Bodedern

Swyddogion Technegol
Victor Hughes, Bodffordd
Evan D. Jones, Llanerchymedd

Swyddogion Llwyfan
Dic Pritchard, Llangwyllog
Arwel Humphreys, Bodffordd
Rees Roberts, Bodffordd

Archwilwyr
D.Ll. Jones B.Sc. F.C.A., Cwmni I. G. Jones, Cyfrifwyr Siartredig, Llangefni

AELODAU'R PWYLLGOR GWAITH LLEOL

LLYWYDDION ANRHYDEDDUS

Siân Arwel Davies, W. Fred Evans, Rhun ap Iorwerth,

Dewi Lewis Jones, Dr. Hywel Jones, Llinos Medi

CADEIRYDD

Edward Morus Jones

IS-GADEIRYDD

Sian Arwel Davies

YSGRIFENYDDION

Gary Pritchard, Mari Pritchard a David Evans

TRYSORYDD

Sonia Williams

AELODAU'R PWYLLGOR

Ann Coleman, Eurfryn G.Davies, Jane Evans, Lisa Evans, Ann Evans-Jones, Carwyn Elias Jones, Rhian Jones, Elain Rhys Jones, Siwan Llynor, Catrin Owen, Alun Roberts

AMODAU CYFFREDINOL EISTEDDFOD MÔN

1. **Cymraeg fydd iaith y llwyfan.**

2. Bydd angen i gystadleuwyr sicrhau eu bod yn cofrestru i gystadlu drwy ebostio **EisteddfodMon2025@gmail.com** erbyn **30 Ebrill 2025.**

3. Bydd gan y beirniad hawl i atal neu ad-drefnu'r gwobrau.

4. Ni chaniateir gwrthdystio ar goedd yn erbyn unrhyw ddyfarniad. Rhaid anfon gwrthdystiad ysgrifenedig i Gadeirydd Pwyllgor Gwaith yr Eisteddfod o fewn awr ar ôl cyhoeddi'r dyfarniad.

5. Disgwylir i gystadleuwyr ymddangos a chystadlu yn ôl y drefn a roddir iddynt ac i fod yn barod yng nghefn y llwyfan 5 munud cyn dechrau'r gystadleuaeth.

6. Yn dilyn rhagbrofion, gofynnir i'r beirniaid roi tri ar y llwyfan os bydd teilyngdod.

7. Ni chaniateir cyflwyno'r un darn mewn mwy nag un gystadleuaeth yn yr un adran.

8. Dyfarniad yn unig a roddir o'r llwyfan. Bydd beirniadaeth ysgrifenedig ar gael i bob cystadleuydd. Gweler hefyd amodau llenyddol yn yr Adran Lenyddiaeth.

9. Rhoddir hawl i aelodau'r Pwyllgor gystadlu mewn unrhyw gystadleuaeth.

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

ADRAN LLENYDDIAETH

Anfoner y Cyfansoddiadau at:

Gary a Mari Pritchard

Bryn Amel

12 Stryd Margaret

Beaumaris

Ynys Môn

LL58 9DN

neu ar ebost at

EisteddfodMon2025@gmail.com

Erbyn 22in Mawrth 2025

AMODAU ADRAN LLENYDDIAETH

1. Rhaid i bob cyfansoddiad neu gynnyrch a anfonir i'r gystadleuaeth fod yn waith gwreiddiol. Bydd rhaid i gystadleuwyr brofi dilysrwydd eu gwaith os bydd angen.
2. Y cyfansoddiadau i fod yn Y Gymraeg.
3. Rhaid i ymgeiswyr am y Gadair a'r Fedal Ryddiaith anfon eu gwaith at Bryn Amel, 12 Margaret, Beaumaris, Ynys Môn LL58 8DN neu ar ebost at EisteddfodMon2025@gmail.com gan gynnwys ffugenw, enw llawn a manylion cyswllt.
4. Derbynnir rhestr enwau a ffugenwau gan ysgolion yn hytrach nag amlen ar gyfer pob cystadleuydd. Ar gyfer cystadleuwyr o ysgolion, derbynnir rhestr enwau a ffugenwau, yn hytrach nag amlen ar gyfer bob cystadleuydd.
5. Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd Ysgrifennydd yr Eisteddfod **erbyn 22 Mawrth 2025**.
6. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith fydd yn cyrraedd yn hwyr.
7. Cymerir bob gofal am y cyfansoddiadau ond ni fydd yr Eisteddfod yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
8. Ni ddychwelir cyfansoddiadau oni dderbynnir cais o flaen llaw i dderbyn y gwaith yn ôl.

ADRAN LLENYDDIAETH

BARDDONIAETH

BEIRNIAID: Y PRIFARDD CEN WILLIAMS, MANON AWST

1. CYSTADLEUAETH Y GADAIR

Cerdd neu gasgliad o gerddi yn y Mesurau Caeth neu yn y Mesurau Rhydd, heb fod dros 100 o linellau.

Testun: Dychwelyd

Gwobr: Cadair yr Eisteddfod a £200

Y Gadair a'r wobr ariannol: Rhodd gan Cyngor Tref Beaumaris

2. ENGLYN

Testun: Adfail neu **Adfeilion**

Gwobr: £30

3. ENGLYN YSGAFN

Testun: Gwaith ffordd

Gwobr: £30

4. CYWYDD

Testun: Seiriol Wyn a Chybi Felyn

Gwobr: £30

5. SONED

Testun: Y carcharor neu **Y carcharorion**

Gwobr: £30

6. TELYNEG

Testun: Ar lannau'r Fenai

Gwobr: £30

7. LIMRIG

Testun: Roedd gwrachod o ardal Llanddona …

Gwobr: £30

RHYDDIAITH

BEIRNIAID: ELEN WYN A LLŶR TITUS

8. CYSTADLEUAETH Y FEDAL RYDDIAITH

Cyflwyno tri darn o waith creadigol yn cynnwys ffurfiau amrywiol ar rai o'r ffurfiau canlynol: Stori fer, Ysgrif, Ymson, Monolog, Portread *(Rhaid cynnwys o leiaf dwy ffurf wahanol, e.e. dwy stori fer a monolog)*

Testun: Seintiau

Gwobr: Tlws a £200

Y Fedal a'r wobr ariannol: Rhodd gan Capel y Drindod Beaumaris

9. STORI FER

Testun: Yr hen gloc

Gwobr: £30

10. DYDDIADUR TAITH

Testun: Ar draws ynys neu **Rhwng dwy ynys**

Gwobr: £30

11. LLÊN MEICRO (TRI DARN)

Testun: Amddiffyn

Gwobr: £30

12. GORFFEN Y FRAWDDEG

Yr unig beth sy'n well na byw ar Ynys Môn ydi …

Gwobr: £30

13. ERTHYGL OLYGYDDOL

BEIRNIAD: DYLAN JONES

Ysgrifennu stori newyddion neu gynhyrchu adroddiad newyddion ar gyfer y wê, teledu, radio neu bapur newydd ar unrhyw stori arbennig o Ynys Môn

Cyflwynir gwobr gwerth £100 er cof am y newyddiadurwr a'r darlledwr, Vaughan Hughes

14. Y FEDAL DDRAMA

BEIRNIAID: IOLA YNYR A BEDWYR REES

Testun: Y Beirniad

Cyfansoddi drama lwyfan hyd at awr o hyd

Gwobr: Tlws a £150

ADRAN IEUENCTID

BEIRNIAID: BUDDUG ROBERTS A NIA HÂF

15. TLWS YR IFANC (I RAI DAN 25 OED)

Cyflwyno dau ddarn o waith creadigol yn cynnwys y ffurfiau canlynol: Stori fer, Dyddiadur, Cerdd, Portread, Monolog, Ymson neu Pennod gyntaf o nofel

Testun: Wal neu **Waliau**

Gwobr: Tlws a £100

BARDDONIAETH

16. BLWYDDYN 3 A 4

Testun: Ar lan y môr

Gwobr: £20 i'w rannu

17. BLWYDDYN 5 A 6

Testun: Dwi'n caru lle dwi'n byw

Gwobr: £20 i'w rannu

18. BLWYDDYN 7,8 A 9

Testun: Y Cwch neu **Cychod**

Gwobr: £30 i'w rannu

19. BLWYDDYN 10 AC 11

Testun: O fy ffenest

Gwobr: £30 i'w rannu

20. BLWYDDYN 12 A 13

Testun: Y Dywysoges

Gwobr: £30 i'w rannu

RHYDDIAITH

21. BLWYDDYN 5 A 6

Stori'n dechrau efo'r geiriau "Paid a mynd i fewn i fanna!"

Gwobr: £30 i'w rannu

22. BLWYDDYN 7,8 A 9

Stori'n dechrau efo'r geiriau: "Roedd rhywbeth am y castell wedi fy nychryn erioed."

Gwobr: £30 i'w rannu

23. BLWYDDYN 10 AC 11

Testun: Yr ynys unig

Gwobr: £30 i'w rannu

24. BLWYDDYN 12 A 13

Testun: Y mewnfudwr

Gwobr: £30 i'w rannu

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

ADRAN CERDDORIAETH

Cofrestru ar gyfer cystadlu:

EisteddfodMon2025@gmail.com

neu

David Evans

Dwyfor

Llanbedrgoch

Ynys Môn

LL76 8TZ

Erbyn 30 Ebrill 2025

AMODAU ADRAN CERDDORIAETH

1. Mae'n rhaid i gystadleuwyr dderbyn gwasanaeth cyfeilyddion swyddogol yr Eisteddfod ac eithrio yng nghystadleuaeth Sioe Gerdd ble caniateir iddynt ddefnyddio eu cyfeilyddion eu hunain.
2. Ar gyfer unrhyw gystadleuaeth leisiol bydd **RHAID** cyflwyno dau gopi - un copi i'r beirniad ac un copi ar gyfer y cyfeilydd.
3. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd anfon copi electronig neu dau gopi caled **erbyn 3 Mai, 2025** at y cyfeiriad uchod.
4. Ar gyfer y Cystadlaethau Corawl, penderfynir o flaen llaw ar y drefn o ymddangos ar y llwyfan. Cedwir at y drefn hon hyd y bo modd.

RHESTR BEIRNIAID A CHYFEILYDDION

Beirniad Cerdd Lleisiol: Llio Evans, Erin Fflur, Eilir Owen Griffiths

Beirniad Cerdd Dant: Arfon Williams ac Owain Siôn

Beirniad Gwerin: Arfon Williams ac Owain Siôn

Beirninad Sioe Gerdd: Eilir Owen Griffiths

Cyfeilyddion: Ann Peters Jones, Elain Rhys Jones, Olwen Jones, Elen Keen

Telynores: Elain Rhys Jones

ADRAN CERDDORIAETH

BEIRNIAID: **LLIO EVANS, ERIN FFLUR AC EILIR OWEN GRIFFITHS**

25. UNAWD BLWYDDYN 2 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

26. UNAWD BLWYDDYN 3 A 4

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

27. UNAWD BLWYDDYN 5 A 6

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

28. DEUAWD BLWYDDYN 6 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £20, 2il £15, 3ydd £10

29. PARTI UNSAIN BLWYDDYN 6 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

30. PARTI NEU GÔR DEULAIS BLWYDDYN 6 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

31. UNAWD BLWYDDYN 7, 8 A 9

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £15, 2il £12, 3ydd £8

32. UNAWD BLWYDDYN 10 AC O DAN 19 OED

Hunanddewisiad

Unrhyw unawd safonol ac eithrio emyn, unawd allan o sioe gerdd neu ffilm, neu gân ysgafn

Gwobrau: 1af £20, 2il £15, 3ydd £10

33. UNAWD CANU EMYN DAN 19 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £20, 2il £15, 3ydd £10

34. DEUAWD DAN 19 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £30, 2il £20, 3ydd £10

35. DEUAWD DROS 19

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £40, 2il £30, 3ydd £20

36. UNAWD CANU EMYN DROS 19 A DAN 50 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £40, 2il £30, 3ydd £20

37. UNAWD CANU EMYN DROS 50 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £40, 2il £30, 3ydd £20

38. UNAWD 30 OED AC IAU

Perfformio Dwy Gân

a) Dewis unrhyw ddarn allan o Opera, Oratorio neu Lieder, i'w ganu yn y Gymraeg.

b) Unrhyw unawd Gymraeg

Ni chaniateir canu'r un gân mewn mwy nag un gystadleuaeth

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

39. UNAWD GYMRAEG

Perfformio Unrhyw gân a gyfansoddwyd gan gyfansoddwr Cymreig

Gwobrau: 1af £60, 2il £40, 3ydd £25

40. Y BRIF UNAWD

Unrhyw ddarn allan o Opera, Oratorio neu Lieder i'w ganu yn y Gymraeg

Gwobrau: 1af £100, 2il £75, 3ydd £50

PARTÏON / CORAU LLEISIOL

BEIRNIAID: EILIR OWEN GRIFFITHS

41. ENSEMBLE LLEISIOL RHWNG 3 AC 8 MEWN NIFER

Hunanddewisiad digyfeiliant gydag o leiaf tair llinell gerddorol

Gwobrau: 1af £60, 2il £45, 3ydd £30

42. PARTI DEULAIS (HYD AT 25 MEWN NIFER)

Hunanddewisiad (cyflwyno un darn)

Gwobrau: 1af £100, 2il £75, 3ydd £50

43. CÔR MEIBION, MERCHED NEU GYMYSG (DROS 20 MEWN NIFER)

Cyflwyno rhaglen hunanddewisiad heb fod yn hwy na 10 munud gan gynnwys un darn gan gyfansoddwr o Gymro/Gymraes. Gellid hefyd defnyddio trefniant o alaw werin Gymreig gan gyfansoddwr o Gymro/Gymraes

Gwobrau: 1af £400, 2il £300, 3ydd £200

Cystadleuaeth Cymdeithas Eisteddfodau Cymru

Bydd cystadlu mewn dwy eisteddfod leol rhwng 1 Mai 2024 a 1 Mai 2025 yn rhoi'r hawl i gystadlu yn y gystadleuaeth hon yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2025

44. CÔR ADLONIANT

Cyflwyno rhaglen adloniant hyd at 10 munud *(i gynnwys amser gosod a chlirio llwyfan)*
Gwobrau: 1af £400, 2il £300, 3ydd £200

CANU GWERIN

BEIRNIAD: ARFON WILLIAMS AC OWAIN SIÔN

45. UNAWD ALAW WERIN BLWYDDYN 6 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

46. UNAWD ALAW WERIN BLWYDDYN 7, 8 A 9

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £15, 2il £12, 3ydd £8

47. UNAWD ALAW WERIN BLWYDDYN 10 AC O DAN 19 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £20, 2il £15, 3ydd £10

48. UNAWD ALAW WERIN 19 OED A THROSODD

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £40, 2il £30, 3ydd £20

49. CÔR NEU BARTI GWERIN OEDRAN YSGOL (CYNRADD NEU UWCHRADD)

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

50. CÔR, PARTI GWERIN NEU BLYGAIN AGORED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £100, 2il £75, 3ydd £50

CERDD DANT

AMODAU CERDD DANT

1. Mae'n **hanfodol** nodi'r gainc a'r cyweirnod wrth gofrestru.

2. Rhaid sicrhau copi o'r gainc yn y traw cywir o leiaf 1 wythnos cyn yr Eisteddfod. Rhoddir caniatâd i'r delynores wrthod cyfeilio os nad yw'r gainc wedi dod i law cyn yr Eisteddfod.

3. Rhaid sicrhau copi o'r geiriau.

4. Fe all cystadleuydd drefnu ymarfer gyda'r delynores cyn mynd ar y llwyfan.

5. Caniateir canu un pennill o'r gân ar y llwyfan i ymarfer yn unol â rheolau'r Gymdeithas Cerdd Dant.

BEIRNIAD: ARFON WILLIAMS AC OWAIN SIÔN

51. UNAWD CERDD DANT BLWYDDYN 3 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

52. UNAWD CERDD DANT BLWYDDYN 4, 5 A 6

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

53. UNAWD CERDD DANT BLWYDDYN 7, 8 A 9

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £15, 2il £12, 3ydd £8

54. UNAWD CERDD DANT BLWYDDYN 10 AC O DAN 19 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £20, 2il £15, 3ydd £10

55. DEUAWD CERDD DANT OEDRAN YSGOL (CYNRADD NEU UWCHRADD)

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £30, 2il £20, 3ydd £10

56. UNAWD CERDD DANT DROS 19 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £40, 2il £30, 3ydd £20

57. CÔR NEU BARTI CERDD DANT OEDRAN YSGOL (CYNRADD NEU UWCHRADD)

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

58. CÔR NEU BARTI CERDD DANT AGORED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £100, 2il £75, 3ydd £50

CANU CYFOES

BEIRNIAD: IFAN GWILYM PRITCHARD

59. GRŴP POP/CYFOES

Un can gyfoes i'w pherfformio yn fyw heb ddefnyddio traciau cefndir

Gwobrau: 1af £150, 2il £100, 3ydd £50

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

PERFFORMIO THEATRIG

Cofrestru ar gyfer cystadlu:

EisteddfodMon2025@gmail.com

neu

Lisa Evans

Gwên y Wawr

21 Glan Ffynnon

Llanrug

LL54 4PR

Erbyn 30 Ebrill 2025

AMODAU PERFFORMIO THEATRIG

1. Caniateir perfformio yn y **GYMRAEG** yn unig.

2. Cân o Sioe Gerdd neu Ffilm: rhaid i bob cystadleuydd ddarparu ei gyfeilydd/gyfeiliant ei hun ; gall hynny gynnwys tâp neu allweddell wedi ei raglennu, OND ni ddylid defnyddio lleisiau cefndir.

3. Bydd angen sicrhau copi o'r gân a'r sgôr i'r beirniad. Rhaid anfon copi wrth gofrestru.

5. Monolog: gall y fonolog ddod o lyfr Cymraeg gwreiddiol, neu ddrama Gymraeg, neu fod yn wreiddiol.

6. Caniateir mân offer llwyfan a gwisg briodol ar gyfer y perfformiad.

PERFFORMIAD SIOE GERDD

BEIRNIAD: EILIR OWEN GRIFFITHS

60. UNAWD BLWYDDYN O DAN 19 OED O SIOE GERDD NEU FFILM

Gwobrau: 1af £30, 2il £20, 3ydd £10

61. UNAWD DROS 19 OED O SIOE GERDD NEU FFILM

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

PERFFORMIAD MONOLOG

BEIRNIAD: ANGHARAD LLWYD

62. MONOLOG BLWYDDYN 7, 8 A 9

Gwobrau: 1af £20, 2il £15, 3ydd £10

63. MONOLOG BLWYDDYN 10 AC O DAN 19 OED

Gwobrau: 1af £30, 2il £20, 3ydd £10

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

ADRAN OFFERYNNOL

Cofrestru ar gyfer cystadlu:

EisteddfodMon2025@gmail.com

neu

Gary a Mari Pritchard

Bryn Amel

12 Stryd Margaret

Beaumaris

Ynys Môn

LL58 8DN

erbyn 30 Ebrill 2025

AMODAU ADRAN OFFERYNNOL

PWYSIG: Cofiwch nodi os ydych angen gwasanaeth cyfeilydd swyddogol yr Eisteddfod.

1. Mae rhyddid i unawdwyr ddefnyddio eu cyfeilydd eu hunain.

2. Ni fydd cyfeilydd swyddogol ar gael ar y diwrnod oni nodir yr angen ar y ffurflen gais.

3. Dylid amgau copi o'r gerddoriaeth y bwriedir ei berfformio gyda'r ffurflen gais.

4. Ni chaniateir newid cyweirnod – rhaid perfformio'r gerddoriaeth yn y cyweirnod gwreiddiol.

5. Bydd hawl gan y beirniad i dynnu marciau oddi ar gystadleuydd aiff dros yr amser penodedig.

BEIRNIAD: **GAVIN WYN SAYNOR**

64. UNAWD OFFERYNNOL BLWYDDYN 6 AC IAU

Hunanddewisiad na chymer mwy na 3 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £15, 2il £10, 3ydd £5

65. UNAWD OFFERYNNOL BLWYDDYN 7, 8 A 9

Hunanddewisiad na chymer mwy na 5 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £15, 2il £10, 3ydd £5

66. UNAWD OFFERYNNOL BLWYDDYN 10 AC O DAN 19 OED

Hunanddewisiad na chymer mwy na 10 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £25, 2il £15, 3ydd £10

67. UNAWD OFFERYNNOL AGORED

Hunanddewisiad na chymer mwy na 12 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £75, 2il £50, 3ydd £25

68. DEUAWD OFFERYNNOL OEDRAN YSGOL (CYNRADD NEU UWCHRADD)

Hunanddewisiad na chymer mwy na 8 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £25, 2il £15, 3ydd £10

69. DEUAWD OFFERYNNOL AGORED

Hunanddewisiad na chymer mwy na 10 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £80, 2il £40, 3ydd £20

70. ENSEMBLE OFFERYNNOL OEDRAN YSGOL (DAN 19 OED)

Rhwng tri a 10 mewn nifer

Hunanddewisiad na chymer mwy na 10 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £50, 2il £25, 3ydd £15

71. ENSEMBLE OFFERYNNOL AGORED

Dim mwy na 10 mewn nifer

Hunanddewisiad na chymer mwy na 10 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af 150, 2il £100, 3ydd £50

72. BAND AGORED

Mwy na 20 mewn nifer

Rhaglen adloniant hunan ddewisiad na chymer mwy na 10 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £400, 2il £200, 3ydd £100

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

ADRAN CYFANSODDI

EISTEDDFOD MÔN

BRO SEIRIOL 2025

Anfoner y Cyfansoddiadau at:

Gary a Mari Pritchard

Bryn Amel

12 Stryd Margaret

Beaumaris

Ynys Môn

LL58 9DN

neu ar ebost at

EisteddfodMon2025@gmail.com

Erbyn 22in Mawrth 2025

AMODAU ADRAN CYFANSODDI

1. Rhaid i bob cyfansoddiad neu gynnyrch a anfonir i'r gystadleuaeth fod yn waith gwreiddiol. Bydd rhaid i gystadleuwyr brofi dilysrwydd eu gwaith pe bai angen.
2. Rhaid i bob cyfansoddiad gael ei anfon drwy ebost EisteddfodMon2025@gmail.com gan nodi ffugenw, enw llawn a manylion cyswllt y cyfansoddwr.
3. Rhaid i bob cyfansoddiad gyrraedd Ysgrifennydd yr Eisteddfod **erbyn 22 Mawrth 2025**.
4. Ni fyddwn yn derbyn unrhyw waith fydd yn cyrraedd yn hwyr.
5. Cymerir bob gofal am y cyfansoddiadau ond ni fydd yr Eisteddfod yn derbyn cyfrifoldeb am unrhyw anffawd a ddigwydd iddynt.
6. Ni ddychwelir cyfansoddiadau oni dderbynnir cais o flaen llaw i dderbyn y gwaith yn ôl. Bydd modd derbyn y cyfansoddiadau oddi wrth yr Ysgrifennydd ar ôl i ganlyniad y gystadleuaeth gael ei gyhoeddi yn yr Eisteddfod.
7. Os y dymunir anfon gwaith drwy'r post, cysylltwch gyda Ysgrifennydd yr Eisteddfod.

73. TLWS Y CERDDOR

BEIRNIAD: GWYN M. EVANS

Gorymdaith ar gyfer Band Pres

Cyfansoddodd y Cymro, TJ Powell, rhai o orymdeithiau enwocaf byd y Bandiau Pres gyda'r rhai mwyaf enwog yn cael eu henwi ar ôl cestyll Cymru; Castell Coch, Castell Caerdydd, Castell Caerffili a Chastedd Caernarfon … ond ni chafwyd gorymdaith yn enw Castell Beaumaris.

Mae Seindorf Beaumaris am i'r cyfansoddwr buddugol gyfansoddi Gorymdaith o 4-6 munud o hyd o'r enw "Castell Beaumaris" ar gyfer y Band.

Rhaid I'r gwaith gynnwys casgliad o rannau wedi'u trawsosod yn llawn gan gynnwys sgôr

Dylid ysgrifennu cyfansoddiadau ar gyfer offeryniaeth band pres safonol – pob offeryn i gael ei ysgrifennu yn y cleff trebl ac eithrio trombôn bas, a ddylai gael ei ysgrifennu yn y cleff bas.

1 Cornet Soprano (Eb), 9 Cornet (Bb), 1 Corn Flugel (Bb), 3 Corn Tenor (Eb), 2 Corn Baritone (Bb), 2 Euphonium (Bb), 2 Trombôn Tenor (Bb), 1 Trombôn Bâs (C), 2 Tuba (Eb), 2 Tuba (Bb) ac Offer Taro

Gwobr: Tlws a £500

Y Tlws a'r wobr ariannol: Rhodd gan Seindorf Beaumaris

Os bydd teilyngdod, bydd Seindorf Beaumaris yn perfformio'r Orymdaith yn ystod y Seremoni Wobrwyo

BEIRNIAD: RICHARD VAUGHAN

74. OEDRAN YSGOL UWCHRADD

Darn o gerddoriaeth, unrhyw gyfrwng (lleisiol neu offerynnol), dim mwy na 5 munud i'w berfformio. Gellir cynnwys recordiad o'r gwaith. Caniateir gwaith TGAU neu lefel A.

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

75. EMYN DÔN

Cyfansoddi emyn dôn ar y geiriau canlynol o eiddo'r Parchedig Noel Gibbard

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

Pan glywir sŵn chwalu cadwynau o draw
a hedd yn teyrnasu lle cynt y bu braw,
fe wyddom fod yntau ar ymdaith o hyd,
yr hwn sy'n ddyhead cenhedloedd y byd.

Pan glywir y moliant yn dod dros y don
a'r weddi o'r carchar heb ddig dan y fron,
fe wyddom fod yntau ar ymdaith o hyd,
yr hwn sy'n ddyhead cenhedloedd y byd.

Mor dawel yw'r moliant a'r weddi'n ein tir,
a'r anghrist clewyddog yn atal y gwir;
tyrd atom yn fuan, tyrd atom mewn pryd,
yr hwn sy'n ddyhead cenhedloedd y byd.

Pan glywir yr utgorn yn seinio'n y nef
a chyrrau'r holl ddaear yn clywed ei lef,
dwg dithau, O Gymru, dy drysor i gyd
at Iesu, dyhead cenhedloedd y byd

NOEL GIBBARD

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

ADRAN LLEFARU

Cofrestru ar gyfer cystadlu:

EisteddfodMon2025@gmail.com

neu

Siwan Llynor

Castellior

Ffordd Pentraeth

Porthaethwy

Ynys Môn

LL59 5RR

erbyn 30 Ebrill 2025

ADRAN LLEFARU

BEIRNIAID: CARWYN JOHN AC ANGHARAD LLWYD

75. LLEFARU BLWYDDYN 2 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

76. LLEFARU BLWYDDYN 3 A 4

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

77. LLEFARU BLWYDDYN 5 A 6

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

78. LLEFARU BLWYDDYN 7, 8 A 9

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £15, 2il £12, 3ydd £8

79. LLEFARU BLWYDDYN 10 AC O DAN 19 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £20, 2il £15, 3ydd £10

80. LLEFARU UNIGOL AGORED

Hunanddewisiad

Cyflwynir Cwpan Goffa W.H. Roberts i'r enillydd

Gwobrau: 1af £100, 2il £60, 3ydd £40

81. LLEFARU DONIOL AGORED

Cyflwyno darn doniol dim mwy na 4 munud o hyd

Gwobrau: 1af £60, 2il £40, 3ydd £20

82. GRŴP LLEFARU OEDRAN YSGOL GYNRADD

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

83. GRŴP LLEFARU OEDRAN UWCHRADD

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

84. GRŴP LLEFARU AGORED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £100, 2il £75, 3ydd £50

LLEFARU DYSGWYR

85. LLEFARU DYSGWYR BLWYDDYN 2 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

86. LLEFARU DYSGWYR BLWYDDYN 3 A 4

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

87. LLEFARU DYSGWYR BLWYDDYN 5 A 6

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £12, 2il £8, 3ydd £5

88. LLEFARU DYSGWYR BLWYDDYN 7, 8 A 9

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £15, 2il £10, 3ydd £5

89. LLEFARU DYSGWYR BLWYDDYN 10 AC O DAN 19 OED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £20, 2il £15, 3ydd £10

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

ADRAN Y DYSGWYR

Cofrestru ar gyfer cystadlu:

EisteddfodMon2025@gmail.com

neu

Gary a Mari Pritchard

Bryn Amel

12 Stryd Margaret

Beaumaris

Ynys Môn

LL58 8DN

erbyn 30 Ebrill 2025

90. MEDAL Y DYSGWYR

BEIRNIAD: ALED HUGHES

Sgwrs hyd at bum munud gyda chyflwynydd BBC Radio Cymru, Aled Hughes, ar bwnc hunanddewisol. Cynhelir y sgyrsiau yn **Neuadd Y Plwyf, Llandegfan** ar **Nos Fawrth 13 Mai** gyda'r enillydd yn cael ei gyhoeddi ar lwyfan yr Eisteddfod ar ddydd Sadwrn 17 Mai.

Gwobr: Tlws a £250

91. DYSGWR IFANC

BEIRNIAD: ALED HUGHES

Cyflwyno sgwrs rhwng dau ffrind am bwnc o'i dewis

Gwobr: £100

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

ADRAN DDAWNS

EISTEDDFOD MÔN

BRO SEIRIOL 2025

Cofrestru ar gyfer cystadlu:

EisteddfodMon2025@gmail.com

neu

Siwan Llynor

Castellior

Ffordd Pentraeth

Porthaethwy

Ynys Môn

LL59 5RR

erbyn 30 Ebrill 2025

AMODAU ADRAN DDAWNS

1. Caniateir defnyddio unrhyw gerddoriaeth offerynnol neu yn yr iaith Gymraeg.
2. I grwpiau dawns gwerin, rhaid nodi enw'r ddawns ynghyd â chyfarwyddiadau'r ddawns wrth gofrestru.
3. Disgwylir i Ddawns Werin ddefnyddio arddull, camau a phatrymau traddodiadol Gymreig ac alawon traddodiadol Gymreig neu yn draddodiadol eu naws.
4. Amserir y Perfformiad o'r symudiad cyntaf. Ni chaniateir i'r hyfforddwyr osod y dawnswyr yn eu lle ar gychwyn cystadlaethau dawns.
5. Os na nodir nifer penodol o ddawnswyr, caniateir defnyddio unrhyw nifer addas at ofynion y ddawns.
6. Disgwylir i ddawnswyr cystadlaethau Dawns Cyffredinol i wisgo dillad addas a gweddus ar gyfer y ddawns a'r oedran.
7. Rhaid i'r dawnswyr ystyried agweddau o iechyd a diogelwch a sicrhau fod y corff yn cael ei gynhesu ar gyfer y perfformiad ac oeri ar ôl y perfformiad.

DAWNS WERIN

BEIRNIAD: ANGHARAD HARROP

92. DAWNS WERIN UNIGOL BLWYDDYN 9 AC IAU

Dim mwy na 3 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £15, 2il £10, 3ydd £5

93. DAWNS WERIN UNIGOL AGORED

Dim mwy na 4 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £30, 2il £20, 3ydd £10

94. PARTI DAWNS WERIN NEU STEPIO I GRŴP BLWYDDYN 6 AC IAU

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £50, 2il £30, 3ydd £20

95. PARTI DAWNS WERIN NEU STEPIO AGORED

Hunanddewisiad

Gwobrau: 1af £200, 2il £150, 3ydd £100

DAWNS UNRHYW GYFRWNG

BEIRNIAD: EURGAIN LLOYD

96. DAWNS UNIGOL BLWYDDYN 6 AC IAU

Dim mwy na 3 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £15, 2il £10, 3ydd £5

97. DAWNS UNIGOL BLWYDDYN 7, 8 A 9

Dim mwy na 3 munud i'w berfformio

Gwobrau: 1af £20, 2il £10, 3ydd £5

98. DAWNS UNIGOL DAN 19 OED

Dim mwy na 4 munud i'w berfformio.

Gwobrau: 1af £30, 2il £15, 3ydd £10

99. DAWNS GRŴP I YSGOLION CYNRADD

Unrhyw arddull, dim mwy na 3 munud i'w berfformio.

Gwobrau: 1af £30, 2il £20, 3ydd £10

100. DAWNS GRŴP I YSGOLION DAWNS (OED CYNRADD)

Dim mwy na 4 munud i'w berfformio.

Gwobrau: 1af £40, 2il £30, 3ydd £15

101. DAWNS GRŴP I YSGOLION UWCHRADD

Unrhyw arddull, dim mwy na 4 munud i'w berfformio.

Gwobrau: 1af £40, 2il £30, 3ydd £20

102. DAWNS GRŴP CREADIGOL

I gyflwyno stori ar y testun Carchar neu Gwrachod Llanddona

Gall gynnwys oedran Cynradd neu Uwchradd.

Hyd at 4 munud

Gwobrau: 1af £40, 2il £30, 3ydd £20

EISTEDDFOD MÔN BRO SEIRIOL 2025

ADRAN CELF GWELEDOL

Yr holl waith Celf a Chrefft i'w dderbyn yn Neuadd Gymuned Llangoed rhwng 4.00 a 7.00 o'r gloch ar y **Nos Wener 11 Ebrill 2025**.

Gwaith Technoleg i'w yrru ar ebost at **EisteddfodMon2025@gmail.com**

AMODAU ADRAN CELF A CHREFFT

1. Derbynnir pob darn o waith Celf a Chrefft yn Neuadd Gymuned Llangoed rhwng 4.00pm a 7.00pm ar **Nos Wener 11 Ebrill 2025.**

2. Dylid sicrhau fod y manylion canlynol yn cael ei gyflwyno gyda phob darn gwaith a gyflwynir.

• Ffugenw;

• Teitl y gwaith;

• Teitl a rhif y gystadleuaeth

• Amlen wedi ei selio gydag enw'r cystadleuydd a manylion cyswllt oddi mewn

3. Bydd gwaith buddugol yn cael eu harddangos **yn Neuadd Pentref Llangoed am wythnos cyn Eisteddfod Môn Seiriol 2025.**

4. Oni farno'r beirniad fod teilyngdod, atelir y wobr, neu ran o'r wobr.

5. Rhoddir tystysgrif i'r cyntaf, ail a thrydydd ym mhob cystadleuaeth.

6. **Cynhelir Noson Wobrwyo yn Neuadd Gymuned Llangoed, Lun 12 Mai 2025, am 6:30pm**

7. Cyfrifoldeb pob cystadleuydd yw casglu pob eitem rhwng 6.00pm a 8.00pm Nos Iau 15 Mai 2025. Ar ôl yr amser hwn, ni fydd y Pwyllgor yn gyfrifol am unrhyw waith nas casglwyd oni bai fod trefniadau priodol wedi eu cytuno arnynt o flaen llaw.

ADRAN CELF A CHREFFT

BEIRNIAID: JULIE UPMEYER

103. ARLUNIO MEITHRIN / DERBYN 2D (UNIGOL)

Themau: Fi

Unrhyw gyfrwng dim mwy na A3

Gwobr: £15 i'w rannu

104. ARLUNIO MEITHRIN / DERBYN 2D (GRŴP)

Themau: Ffrindiau

Unrhyw gyfrwng dim mwy na A2

Gwobr: £15 i'w rannu

105. ARLUNIO 2D BLWYDDYN 1 A 2 (UNIGOL)

Themau: Môr

Unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau dim mwy na A3

Gwobr: £15 i'w rannu

106. ARLUNIO 2D BLWYDDYN 3 A 4 (UNIGOL)

Themau: Môr

Unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau dim mwy na A3

Gwobr: £15 i'w rannu

107. ARLUNIO 2D BLWYDDYN 5 A 6 (UNIGOL)

Themau: Môr

Unrhyw gyfrwng /cyfuniad o gyfryngau dim mwy na A3

Gwobr: £15 i'w rannu

108. ARLUNIO 3D BLWYDDYN 1 A 2 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Ynys

Gwaelod dim mwy na hanner metr sgwâr

Gwobr: £15 i'w rannu

109. ARLUNIO 3D BLWYDDYN 3 A 4 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Ynys

Gwaelod dim mwy na hanner metr sgwâr

Gwobr: £15 i'w rannu

110. ARLUNIO 3D BLWYDDYN 5 A 6 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Ynys

Gwaelod dim mwy na hanner metr sgwâr

Gwobr: £15 i'w rannu

111. GWAITH TECSTIL BLWYDDYN 1 A 2 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Gwrachod Llanddona neu **Carchar Beaumaris**

Collage dim mwy na maint A3

Gwobr: £15 i'w rannu

112. GWAITH TECSTIL BLWYDDYN 3 A 4 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Gwrachod Llanddona neu **Carchar Beaumaris**

Collage dim mwy na maint A3

Gwobr: £15 i'w rannu

113. GWAITH TECSTIL BLWYDDYN 5 A 6 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Gwrachod Llanddona neu **Carchar Beaumaris**

Collage dim mwy na maint A3

Gwobr: £15 i'w rannu

114. GWAITH 2D BLWYDDYN 7, 8 A 9 (UNIGOL)

Themau: Môr

Unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau dim mwy na maint A3

Gwobr: £20 i'w rannu

115. GWAITH 2D BLWYDDYN 10 AC 11 (UNIGOL)

Themau: Môr

Unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau dim mwy na maint A3

Gwobr: £20 i'w rannu

116. GWAITH 2D BLWYDDYN 12 A 13 (UNIGOL)

Themau: Môr

Unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau dim mwy na maint A3

Gwobr: £20 i'w rannu

117. GWAITH TECSTIL BLWYDDYN 7, 8 A 9 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Gwrachod Llanddona neu **Carchar Beaumaris**

Collage dim mwy na maint A3

Gwobr: £20 i'w rannu

118. GWAITH TECSTIL BLWYDDYN 10 AC 11 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Gwrachod Llanddona neu **Carchar Beaumaris**

Collage dim mwy na maint A3

Gwobr: £20 i'w rannu

119. GWAITH TECSTIL BLWYDDYN 12 A 13 (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Gwrachod Llanddona neu **Carchar Beaumaris**

Collage dim mwy na maint A3

Gwobr: £20 i'w rannu

120. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL GWAITH CREADIGOL 2D OEDRAN CYNRADD (UNIGOL)

Themau: Môr

Unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau dim mwy na maint A3

Gwobr: £15 i'w rannu

121. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL GWAITH CREADIGOL 3D OEDRAN CYNRADD (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Gwrachod Llanddona neu **Carchar Beaumaris**

Gwaelod dim mwy na hanner metr sgwâr

Gwobr: £15 i'w rannu

122. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL ARLUNIO 2D OEDRAN UWCHRADD (UNIGOL)

Themau: Môr

Unrhyw gyfrwng/cyfuniad o gyfryngau, dim mwy na maint A3

Gwobr: £20 i'w rannu

123. ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL GWAITH CREADIGOL 3D OEDRAN UWCHRADD (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Gwrachod Llanddona neu **Carchar Beaumaris**

Gwaelod dim mwy na hanner metr sgwâr

Gwobr: £20 i'w rannu

CELF AGORED

124. DARN O GELF

Themau: Hunanddewisiad

Gallwch ddefnyddio unrhyw gyfrwng e.e. modelu, paentio, olew, gwaith pren a.y.y.b.

Gwobr: £100 i'w rannu

125. GWAITH TECSTIL AGORED

Themau: Hunanddewisiad

Gwaith o ddewis y cystadleuydd.

Gwobr: £75 i'w rannu

ADRAN FFOTOGRAFFIAETH

BEIRNIAID: DAFYDD NANT

126. FFOTOGRAFFIAETH BLWYDDYN 3 A 4

Llun (print) du a gwyn neu liw, dim mwy na A4 mewn maint ac wedi'i fowntio ar gerdyn

Themau: Pont neu **Pontydd**

Gwobr: £15 i'w rannu

127. FFOTOGRAFFIAETH BLWYDDYN 5 A 6

Llun (print) du a gwyn neu liw, dim mwy na A4 mewn maint ac wedi'i fowntio ar gerdyn

Themau: Pont neu **Pontydd**

Gwobr: £15 i'w rannu

128. FFOTOGRAFFIAETH BLWYDDYN 7,8 A 9

Casgliad o bedwar llun (print) du a gwyn neu liw, dim mwy na A5 mewn maint ac wedi'u mowntio ar gerdyn

Themau: Pont neu **Pontydd**

Gwobr: £20 i'w rannu

129. FFOTOGRAFFIAETH BLWYDDYN 10 AC 11

Casgliad o bedwar llun (print) du a gwyn neu liw, dim mwy na A5 mewn maint ac wedi'u mowntio ar gerdyn

Themau: Pont neu **Pontydd**

Gwobr: £20 i'w rannu

130. FFOTOGRAFFIAETH BLWYDDYN 12 A 13

Casgliad o bedwar llun (print) du a gwyn neu liw, dim mwy na A5 mewn maint ac wedi'u mowntio ar gerdyn

Themau: Pont neu **Pontydd**

Gwobr: £20 i'w rannu

131. FFOTOGRAFFIAETH AGORED

Casgliad o bedwar llun (print) du a gwyn neu liw, dim mwy na A5 mewn maint ac wedi'u mowntio ar gerdyn

Themau: Pont neu **Pontydd**

Gwobr: £30 i'w rannu

ADRAN TECHNOLEG

BEIRNIAID: STEPHEN EDWARDS

132. GRAFFEG CYFRIFIADUROL BLWYDDYN 3 A 4

Creu llun digidol gwreiddiol. Ni chaniateir meddalwedd clipart.

Themau: Chwedl neu **Chwedlau**

Gwobr: £15 i'w rannu

133. GRAFFEG CYFRIFIADUROL BLWYDDYN 5 A 6

Creu llun digidol gwreiddiol. Ni chaniateir meddalwedd clipart.

Themau: Chwedl neu **Chwedlau**

Gwobr: £15 i'w rannu

134. PODLEDIAD CYNRADD (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Cynefin

I'w gyflwyno fel .WAV neu .MP3 dim hirach nag 8 munud

Gwobr: £20 i'w rannu

135. FFILM FER CYNRADD (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Cynefin

I'w gyflwyno fel .MOV neu .MP4 dim hirach na 3 munud

Gwobr: £20 i'w rannu

136. GRAFFEG CYFRIFIADUROL BLWYDDYN 7, 8 A 9

Dylunio tudalen gartref ar gyfer gwefan

Gwobr: £20 i'w rannu

137. GRAFFEG CYFRIFIADUROL BLWYDDYN 10 AC 11

Dylunio logo ar gyfer cwmni/mudiad lleol

Gwobr: £20 i'w rannu

138. GRAFFEG CYFRIFIADUROL BLWYDDYN 12 A 13

Hunanddewisiad

Gwobr: £20 i'w rannu

139. PODLEDIAD UWCHRADD (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Cynefin

I'w gyflwyno fel .WAV neu .MP3 dim hirach na 10 munud

Gwobr: £25 i'w rannu

140. FFILM FER UWCHRADD (UNIGOL NEU GRŴP)

Themau: Cynefin

I'w gyflwyno fel .MOV neu .MP4 dim hirach na 5 munud

Gwobr: £25 i'w rannu

DYLUNIO A THECHNOLEG

Rhaid cynnwys darn o waith gorffenedig mewn unrhyw gyfrwng addas e.e. modelu, tecstilau, gwaith coed, gwaith metel yn ogystal â ffolio neu boster A4 yn cofnodi prif gamau'r broses o ddylunio a gwneud yr eitem.

141. DYLUNIO A THECHNOLEG BLWYDDYN 7,8 A 9

Gwobr: £25 i'w rannu

142. DYLUNIO A THECHNOLEG BLWYDDYN 10 A 11

Gwobr: £25 i'w rannu

143. DYLUNIO A THECHNOLEG BLWYDDYN 12 A 13

Gwobr: £25 i'w rannu

144. DYLUNIO A THECHNOLEG AGORED

Gwobr: £50 i'w rannu